Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 02.09.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## COVID-19: CJRS mis Awst 2021

Mae hawliadau o dan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) bellach ar agor ar gyfer cyfnodau tâl ym mis Awst 2021. Rhaid i chi gyflwyno'ch hawliad ar gyfer mis Awst 2021 erbyn 14 Medi 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wages-through-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy

## COVID-19: Mesurau i amddiffyn busnesau rhag cael eu troi allan i barhau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd busnesau sy'n dioddef effeithiau pandemig y Coronafeirws yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu troi allan tan 25 Mawrth 2022 (yn wreiddiol i ddod i ben ar 30 Medi 2021). Dylai busnesau barhau i dalu rhent pryd bynnag y bo modd, ond ni fyddant yn fforffedu eu tenantiaethau busnes am beidio â thalu rhent tan 25 Mawrth 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-estyn-mesurau-i-amddiffyn-busnesau-rhag-cael-eu-troi-allan

## DYSGU: Gweminarau am ddim i helpu gweithgynhyrchwyr bwyd a diod fynd yn ddigidol

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn rhedeg gweminar dwy ran, sydd wedi'i deilwra ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod ac yn dangos sut y gall marchnata digidol ac offer ar-lein gyrraedd marchnad fwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3m8SnHd

## TECH: Gweithdai 'Dod yn Dref SMART'

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd. Mae mwy o weithdai 'Dod yn Dref SMART' yn cael eu rhyddhau ar gyfer mis Medi. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

Sesiwn Cymraeg – 10 Medi 2021 3:00pm – 5:00pm:

https://bit.ly/3kFUoKN

Sesiynau Saesneg:

https://bit.ly/3ByRrTc

## COVID-19: Clinigau brechu

Mae’r clinigau brechu galw heibio canlynol yn digwydd yng Ngwynedd yr wythnos nesaf. Os dymunir, gellir trefnu apwyntiadau trwy ffonio 03000841011 neu 03000841012:

- 4 Medi 2021, 8:30am – 5:30pm
  Canolfan Byw’n Iach Arfon, Caernarfon LL55 1DU (Dosau 1af & 2il Pfizer)

- 5 Medi 2021, 8:30am – 7:00pm
  Ysbyty Alltwen, Tremadog LL49 9AQ (Dosau 1af & 2il Pfizer & 2il ddosau AZ)

- 6-7 Medi 2021, 8:30am – 7:30pm
  Cadeirlan Bangor LL57 1LH (Dosau 1af & 2il Pfizer & 2il ddosau AZ)

- 10 Medi 2021, 8:30am – 7:30pm
  Canolfan Byw’n Iach Glan Wnion, Dolgellau LL40 1LH (Dosau 1af & 2il Pfizer)

- 11 Medi 2021, 10:30am – 3:30pm
  Meddygfa Treflan, Pwllheli LL53 5NF (Dosau 1af & 2il Pfizer)

Mae pecyn hyrwyddo ar gael sy’n dangos sut gall cyflogwyr helpu i gefnogi eu staff a hyrwyddo’r rhaglen frechu coronafeirws (COVID-19), ewch i:

https://llyw.cymru/brechiad-covid-19-pecyn-hyrwyddo-i-gyflogwyr

# COVID-19: Safle profi PCR Bangor wedi symud

Mae’r ganolfan brofi, i’r rhai sydd efo symptomau coronafeirws, ym Mangor, wedi symud i Faes Parcio Gorllewinol Lôn Glan Môr, Bangor. LL57 1AT. Bydd ar agor o 8:00am – 8:00pm, 7 diwrnod yr wythnos. Mae angen gwneud apwyntiad, naill trwy ffonio 119, neu ymweld â:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/profi-covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/

# COVID-19: Crynodeb ac adnoddau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd newidiadau sylweddol i’r rheolau Covid yn ystod y cylch diweddaraf o 21 diwrnod, a bydd Cymru yn

parhau i fod ar Lefel Rhybudd 0 – bydd y rheoliadau'n cael eu hadolygu eto ar 16 Medi 2021.

Mae'r canllawiau Lefel Rhybudd 0 i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau ar gael yma:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

- Asesiadau risg

Ar Lefel Rhybudd 0, rhaid i bawb sy'n gyfrifol am leoliadau sydd ar agor i'r cyhoedd a gweithleoedd gynnal asesiad risg Covid-19, a pharhau i gymryd mesurau rhesymol i leihau unrhyw gysylltiad â choronafeirws, gyda ffocws ar ymbellhau cymdeithasol, hylendid ac awyru. Mae'r canllawiau ar baratoi eich asesiad risg yma:

https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

- Cardiau Gweithredu Mesurau Rhesymol

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol, a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru, o gymorth aruthrol wrth i chi gynnal asesiad risg. I ddarllen y cardiau gweithredu ewch i:

https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

- Asedau Digidol Llywodraeth Cymru

Mae asedau digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoliadau Lefel Rhybudd 0 yng Nghymru ar gael yma:

https://bit.ly/AsedauLefel0Assets

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru